



## Ble'r aeth y sêr gwib uwchben?



Caiff awyr y nos ei oleuo'n rheolaidd gan rhibannau o dân – ffenomen gyda'r enw cyffredin 'sêr gwib'. Ond, peidiwch â chamgymryd eu bod yn gysylltiedig â sêr. Darnau bach o graig ydynt, o'r enw 'meteorau', sy'n llosgi yn ein hatmosffer wrth iddynt ddisgyn.

Yn aml, daw'r meteorau yma at y Ddaear mewn grwpiau. Gelwir y rhain yn 'gawodydd meteor', a chaiff eu hachosi gan gomedau. Creigiau, lluch y gofod, ac iâ yw cyfansoddiad y rhain. Wrth iddynt deithio'n agos at yr Haul, achosir i'r iâ arnynt i doddi yn y gwres. Mae darnau bach o lwch a chraig hefyd yn dianc o'r gomed, gan baentio cynffon disglair yn awyr y nos wrth iddynt losgi yn atmosffer y Ddaear.

Cawod meteor diddorol iawn yw'r "Pheonicidau". Daeth i'r golwg yn 1956 ... ond yna diflannodd, gan adael seryddwyr i gwestiynu "Ble'r aeth y sêr gwib uwch ben?".

I geisio ateb y cwestiwn, ymchwilion nhw i mewn i gomed arall ac aeth ar goll, comed Blanpain. Cafodd ei ddarganfod gan ddau seryddwr yn 1819, ond erbyn diwedd y flwyddyn, diflannodd heb unrhyw sôn.

Ond yna, bron i 200 mlwyddyn yn ddiweddarach, cafodd asteroid ei weld yn teithio ar hyd union yr un llwybr â'r gomed Blanpain o 1819. I'w syfrdan, darganfyddon nhw mai'r un gomed oedd y ddau! Gweddillion y gomed wreiddiol darganfyddon nhw. Daeth y seren wib yn ôl!

Mae'r creigiau, nwy, a'r iâ sydd wedi dianc o'r gomed yn awr yn hedfan fel llwybr o lwch drwy'r gofod. Fel yr asteroid, mae'n dilyn yr un llwybr teithiodd comed Blanpain amser maith yn ôl, ac wrth i'r llwybr o lwch deithio drwy'r atmosffer, mae'r gronynnau bach yn disgleirio. Dyma sy'n creu'r gawod meteor Pheonicidau!

## COOL FACT

Ffaith Ddidorol! Daw'r holl ddeunydd sy'n achosi'r cawodydd meteor o'r un cyfeiriad yn yr awyr, ac felly gelwir y cawodydd gan amlaf ar ôl pa bynnag grŵp o sêr sydd tua i'r un cyfeiriad.

